

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 10) 2020

1. Ar 11 Ionawr 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod y cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 18 Ionawr 2021 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir - "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 10) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 18 Ionawr 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Cynnig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

Beach Road, Southerndown – Map AD6, AE6 and AF6

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â'r B4524 am 387 metr tua'r de.

Ar ochr y dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o bwynt 406 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524, tua'r de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o 432 metr, gyfagos â'r un presennol.

O'r ochr y gprllewin o'r gyffordd â'r B4524 am 16 metr tua'r de.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 132 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524 am 10 metr tua'r de.

Ar ochr y gorllewin, o bwynt 154.5 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524 am 49 metr tua'r de.

Ar ochr y gorllewin, o bwynt 214.5 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524 am 10 metr tua'r de.

Ar ochr y gorllewin, o bwynt 232.5 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524 am 112 metr tua'r de.

Ar ochr y de-orllewin o bwynt 359.5 metr tua'r de o'r gyffordd â'r B4524, am bellter o 471 metr tua'r de-ddwyrain, gyfagos â'r un presennol.

Croft Lane, Southerndown – Map AD6, AE6 and AF6

Ar ddwy ochr y gyffordd â Beach Road, tua'r gorllewin am 7 metr

Dyddiad: 14 Ionawr 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô, CF5 6AA